WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyhoeddwyd: Medi 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 156A2017-18



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Samantha Clements, Tim Buckle a Steve Barry dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, i feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 4

Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 5

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 10

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 11

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 14

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2016-17, cynhaliom waith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau, a chynllunio ac adrodd ar welliannau. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Nangosyn 1.

## Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2017-18.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cafwyd nifer o gynigion ar gyfer gwella, ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac yn erbyn argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Augwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

## Dangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| Mawrth 2017 | **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau** | Mae gan y Cyngor flaenoriaethau clir sy'n siapio ei benderfyniadau ynghylch newidiadau sylweddol i wasanaethau ac mae'n ceisio dysgu a gwella ei drefniadau, ond mae lle i wella hygyrchedd peth o'r wybodaeth:<br>• mae'r Cyngor wedi nodi tair blaenoriaeth gorfforaethol sydd yn gosod seiliau clir i'w benderfyniadau ynghylch newidiadau sylweddol i wasanaethau;<br>• mae'r Cyngor ar y cyfan yn elwa ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd clir ac ar berthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng swyddogion ac aelodau;<br>• wrth newid gwasanaethau'n sylweddol, bydd y Cyngor fel arfer yn ystyried amrywiaeth o opsiynau a gefnogir gan wybodaeth glir, ond fel arfer ni cheir arfarniad ffurfiol o opsiynau i gyd-fynd â hynny;<br>• at ei gilydd, mae gan y Cyngor drefniadau ymgynghori effeithiol wrth ystyried newidiadau sylweddol i wasanaethau, ac mae'n parhau i'w datblygu, er y gallai gwybodaeth fod yn fwy hygyrch;<br>• mae'r Cyngor yn monitro arbedion ariannol ac effaith rhai newidiadau sylweddol i wasanaethau, ond gellid atgyfnerthu hyn drwy nodi'n glir, wrth wneud penderfyniadau, sut y bydd effaith yn cael ei monitro; a<br>• mae'r Cyngor yn dysgu o'i brofiadau i wella ei drefniadau ar gyfer penderfynu i newid gwasanaethau a chyflawni'r newidiadau hynny. | C1 Dylai'r Cyngor wella argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth yn gysylltiedig â phenderfyniadau i newid gwasanaethau'n sylweddol, gan gynnwys, er enghraifft, cyhoeddi Blaenraglen Waith / Blaenraglenni Gwaith sydd yn trafod busnes y Cabinet a'r Cyngor.<br>C2 Dylai'r Cyngor ddatrys sut y bydd yn ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses benderfynu.<br>C3 Dylai'r Cyngor nodi'n glir, wrth wneud penderfyniad, sut y bydd effaith newidiadau i wasanaethau yn cael ei monitro. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Defnydd o adnoddau** | | | |
| Tachwedd 2016 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16** Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau;<br>• yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; a<br>• cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2016. | Dim |
| Mawrth 2017 | **Cynllunio arbedion** Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer arbedion ariannol, gan gynnwys i ba raddau y mae'n llwyddo i sicrhau'r arbedion angenrheidiol ac a oes ganddo ddulliau cadarn o gynllunio, rheoli a sicrhau arbedion i'r gyllideb, ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol. | Er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn, ni cheir digon o gefnogaeth ar gyfer cydnerthedd ariannol yn y dyfodol gan nad yw ei gynlluniau arbed wedi'u datblygu'n ddigonol:<br>• mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod wedi cyflawni 83% o'r arbedion a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn, a gall ddangos bod arbedion unigol wedi'u cyflawni;<br>• mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol, ond nid oes digon o fanylion yn ei gynlluniau arbed dangosol; ac<br>• nid yw rhai o gynlluniau arbed cymeradwy'r Cyngor ar gyfer 2016-17 wedi'u datblygu'n ddigonol, ac nid oes digon o fanylion ynddynt, ac mae hyn yn cynyddu'r risg na fyddant yn cael eu cyflawni o fewn y raddfa amser a gynlluniwyd. | A1 Atgyfnerthu trefniadau cynllunio ariannol drwy: sicrhau bod: cynigion arbed:<br>• wedi'u datblygu'n ddigonol<br>• wedi'u nodi'n glir dros gyfnod y CATC ac<br>• yn cynnwys graddfeydd amser realistig ar gyfer cyflawni, cyn eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad perfformiad lleol yn seiliedig ar risg** | | | |
| | **Asesiad Corfforaethol Dilynol**<br>**Mae'r adroddiad hwn yn archwilio a yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd effeithiol yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn yr adroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol.** | Gwelsom fod y Cyngor wedi ymateb mewn modd effeithiol i'r materion a godwyd gennym yn r Asesiad Corfforaethol, a'i fod naill ai wedi gweithredu ein cynigion ar gyfer gwella yn llawn neu wedi gwneud cynnydd yn erbyn y cynigion hynny. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae'r Cyngor wedi sefydlu gweledigaeth ar gyfer 2020 fydd yn cefnogi dull strategol o gyflenwi gwasanaethau ac o lywio cynlluniau gwasanaeth.<br>• mae'r Cyngor yn mireinio ei adroddiadau ar berfformiad:<br>• lle bo'n briodol, mae'r Cyngor yn cynnwys sail resymegol ar gyfer targedau mewn adroddiadau ar berfformiad, ac yn disgrifio faint o welliant a ddisgwylir;<br>• mae'r Cyngor yn gweithio tuag at sicrhau bod 'mesuriadau llwyddo' yn galluogi gwerthusiad o'r perfformiad a fwriedir, a bod yr esboniad ynghylch perfformiad yn seiliedig ar y mesuriad hwnnw.<br>• mae'r Cyngor wedi rhoi diffiniad cliriach o'r modd y mae'n cymhwyso sgoriau CAG mewn adroddiadau craffu ac adroddiadau Asesu Perfformiad Corfforaethol, ac mae'n mireinio ei adroddiadau ar berfformiad cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn nodi'n glir a yw'r Cyngor wedi cyflawni'n unol â'r hyn a fwriadwyd ganddo.<br>• cafwyd datblygiadau o fewn y gwasanaeth TGCh er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi agenda drawsnewid y Cyngor; mae rhai camau wedi'u cwblhau ond eraill yn mynd rhagddynt, ond mewn cyfnod cychwynnol.<br>• mae ystyriaethau'r gweithlu bellach wedi'u hymwreiddio yng nghynlluniau busnes gwasanaethau. Mae datblygiadau eraill ar y gweill o fewn y gwasanaeth AD, ac er nad ydynt yn cefnogi agenda drawsnewid y Cyngor mewn modd eglur, bwriedir iddynt ddatblygu'r gwasanaeth AD.<br>• mae Cynlluniau Busnes gwasanaethau bellach yn cynnwys ystyriaeth o ofynion eiddo yn y dyfodol.<br>• mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi disodli Byrddau Gwasanaethau Lleol, ac mae lle o hyd i atgyfnerthu'r trefniadau o ran mabwysiadu mesurau i werthuso llwyddiant y prif weithgarwch a gyflawnir ar y cyd. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | |
| Mai 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. | Dim |
| Tachwedd 2016 | **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliannau. | Dim |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio - dim gwaith lleol** | | | |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'.

Yn yr asesiad o welliant blynyddol, ystyrir pa mor debygol yw hi y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy roi crynodeb o'i waith asesu ac archwilio mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19, sef cyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Huw David
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Cyfeirnod: PA211/DO/hcj
Dyddiad cyhoeddi: 28 Tachwedd 2016

Annwyl Gynghorydd David

### Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2016 cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd y prif faterion oedd yn deillio o'r archwiliad cyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 29 Medi 2016, ac mae adroddiad manylach hefyd wedi cael ei gyhoeddi.

At ei gilydd, roedd y datganiad cyfrifon a'r papurau gwaith cysylltiedig a ddarparwyd i ddibenion archwilio o safon resymol, er bod peth dryswch i ddechrau ynghylch yr hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl o ran papurau gwaith ategol ac ati. Roedd y swyddogion yn barod iawn i helpu, ac fe gawsom yr holl wybodaeth a geisiwyd ganddynt. Cafwyd oedi o dro i dro, ond mae hynny i'w ddisgwyl wrth gasglu gwybodaeth am y tro cyntaf. Roedd a wnelo un o'r materion pwysicaf a nodwyd yn fy Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol â nifer y balansau dyledwyr a chredydwyr oedd wedi'u dosbarthu'n anghywir, neu lle cyfrifwyd y ffigur net i fyny neu i lawr yn anghywir. Hen falansau oedd y rhain yn bennaf, ac fe'u cywirwyd yn y datganiadau ardystiedig. Mae swyddogion wedi cymryd camau i sicrhau na fydd y problemau hyn yn codi eto yn y dyfodol.

## Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau, wrth gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2016

Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn fy ngwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 neu systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn fuan yn 2017, cyn gynted ag y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 fod yn uwch na'r ffi gytunedig a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016, oherwydd y gwaith ychwanegol yr oedd yn rhaid ei gyflawni i wirio balansau yn y Datganiad Cyfrifon. Bydd y ffi ychwanegol yn cael ei thrafod a'i chytuno â'r Pennaeth Cyllid.

Yn gywir

Derwyn Owen
**Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol**

**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Dangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Cydnerthedd Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad yn 2014-15 (Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru: Ebrill 2015), gwnaethom nifer o argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd llawer o'r argymhellion hyn yn dal i fod yn berthnasol ac roedd angen i awdurdodau wneud rhagor o waith i fynd i'r afael â nhw yn ystod 2016-17. At hynny, gwnaethom hefyd yr argymhellion canlynol ar sail ein hadolygiad mwy diweddar.<br>A1 Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'u blaenoriaethau corfforaethol a'u cynlluniau gwasanaeth;<br>• cysoni strategaethau allweddol eraill fel cynlluniau rheoli gweithlu ac asedau â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>• datblygu cynlluniau arbedion amlflwydd cynhwysfawr wedi'u costio'n llawn sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cwmpasu cyfnod y Cynllun, nid y gyllideb flynyddol nesaf yn unig;<br>• categoreiddio cynigion ar gyfer arbedion fel y gellir monitro'r newid o fathau traddodiadol o arbedion i arbedion gweddnewidiol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a<br>• sicrhau bod amserlenni ar gyfer cyflawni cynigion penodol ar gyfer arbedion yn realistig a bod atebolrwydd am eu bodloni wedi'i neilltuo'n briodol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Polisïau Cynhyrchu Incwm a Chodi Tâl corfforaethol.<br>A3 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddadwy a gasglwyd ac effaith y rhain a'r defnydd ohonynt yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbedion yn ddigon manwl i sicrhau bod aelodau'n eglur am yr hyn y bwriedir i'r cynlluniau ei ddarparu ac y gellir craffu'n briodol ar ddarpariaeth y cynlluniau hynny drwy gydol y flwyddyn.<br>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod capasiti a gallu corfforaethol ar lefel sy'n gallu cefnogi darpariaeth cynlluniau arbedion yn effeithiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyflymder gofynnol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd y saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn gofyn i amrywiaeth o randdeiliaid – Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac awdurdodau lleol – weithredu'n unigol ac ar y cyd.<br>A1 Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, drwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.<br>A2 Gwella gwaith strategol gyda phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio drwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cynnwys gwaith pob partner ac sy'n nodi'r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol.<br>A4 Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymiadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrff cyflawni i wella'r gwaith o gynllunio prosiectau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol drwy:<br>• osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.<br>A6 Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar roi sicrwydd i'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | Trefniadau Awdurdodau Lleol i Godi Tâl am Wasanaethau a Chynhyrchu Incwm | Gwnaeth yr adroddiad hwn wyth argymhelliad, yr oedd chwech ohonynt yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu. Roedd argymhellion A4 ac A6 yn gofyn i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu.<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad cadarn rhyngddynt a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, osod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.<br>A5 Nodi cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A7 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd i'r pwyllgor(au) craffu ar unrhyw newidiadau i daliadau;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gais, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau cadarn.<br>A8 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd. |
| Ionawr 2017 | Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector | A1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur eu gwaith gyda'r trydydd sector. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, rydym yn argymell y dylai swyddogion yr awdurdod lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol i wneud y canlynol:<br>• hunanwerthuso cyfranogiad a threfniadau rheoli, perfformiad ac arfer presennol y trydydd sector;<br>• nodi lle mae angen gwella trefniadau cydweithio; ac<br>• ar y cyd, ddrafftio a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd drwy'r ymarfer hunanwerthuso.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector yn effeithiol. Er mwyn atgyfnerthu trefniadau goruchwylio ar gyfer y trydydd sector, rydym yn argymell y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygiadau a gwblheir gan swyddogion a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â bylchau a gwendidau yn rheolaidd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru